


EICH

TAITH



AT DDOD YN BAROD
AR GYFER YR ARHOLIADAU

CROESO I LEFEL 2

GOFAL, CHWARAE, DYSGU,

A DATBLYGIAD PLANT (YMARFER A THEORI)



Mae'r cymhwyster yn cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol o'r maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant â'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio yn y sector.

CYNLLUNIO YMLAEN...

Fe'i cynlluniwyd ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn addysg bellach sydd:

- â diddordeb mewn gweithio mewn rôl gefnogol yn y sector gofal plant
- yn astudio, neu sydd wedi cwblhau cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- yn dychwelyd i'r gweithle ar ôl seibiant gyrfa ac am fireinio eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y sector Gofal Plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant neu sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 1.

Dysgwyr sydd heb gyflawni cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd eto: Cynghorir yn gryf y dylid gwneud cymwysterau craidd cyn neu ar y cyd â'r cymhwyster hwn.

Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n cyfuno unedau ymarfer sy'n cael eu hasesu yn y gweithle gyda gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn adlewyrchu'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer. Ymhlith y testunau fydd:

- cefnogi ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- cefnogi chwarae, dysgu, twf a datblygiad
- cefnogi maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar
- ymateb i arwyddion o afiechyd a phlâu/heintiau posibl
- iechyd, llesiant a datblygiad plant, 0-19 oed a ffactorau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad
- rôl a gwerth y gwasanaethau gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi anghenion gofal, iechyd, llesiant a datblygiad plant

Bydd cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn caiatáu i ddygwyr weithio dan oruchwyliaeth fel gweithiwr Lefel 2 Gofal Plant cymwysedig. Gall dysgwyr hefyd ddewis symud ymlaen i'r cymwysterau canlynol:

- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 TAG mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

GWNEWCH EICH GORAU GLAS!

AWGRYMIADAU

Mynychu'r lleoliad gwaith yn rheolaidd i gael profiad ymarferol

Mynychu'r Coleg yn rheolaidd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth

Adolygu'n dda ar gyfer arholiad Uned 216

CANLLAWIAU LLESIANT

Cymerwch gamau bach.

Cofiwch mai taith yw hon a byddwch yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ar hyd y ffordd.

Cymerwch egwylion rheolaidd o adolygu.

Gwnewch ymarfer corff, ewch i weld ffrindiau, treuliwch amser â'r teulu.

Edrychwch ar ôl eich hun.

Gwnewch yn siŵr bod eich deiet yn gytbwys a'ch bod yn cael digon o gwsg.

Byddwch yn bositif.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n teimlo fel hynny, bydd agwedd bositif yn eich helpu chi.

Cofiwch fod pawb yn wahanol.

Ceisiwch beidio â chymharu eich hun ag eraill.

SUT BYDDWCH CHI'N CAEL EICH ASESU?

Asesir y cymhwyster trwy 90% o asesiad mewnol a 10% o asesiad allanol.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth â'u haseswr
- arholiad allanol

